

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD YN YSGOL GYNRADD RHEWL AR NOS FAWRTH 10FED O ORFFENNAF 2018 AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Arwel Jones (Cadeirydd), Siân Davies, Brynle Lloyd, Iona Jones, Clwyd Thomas a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Mike Denman, Wyn Wilkinson, Ian Hession, Dewi Roberts ar Gyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. TRAFODAETH GYDA MR BRYN WILLIAMS, RHEOLWR ASED AU CYNGOR SIR DDINBYCH.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Bryn Williams i'r cyfarfod. Adroddwyd Mr Williams gan fod Ysgol Gynradd Rhewl yn cau ar ddiwedd tymor yr haf presennol mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori gyda'r Gymuned leol yn y fan gyntaf i gael syniadau am ddyfodol yr adeilad. Penderfynwyd yr aelodau i siarad gyda'r trigolion y Gymuned yn ystod yr haf ynglŷn ar ddyfodol yr adeilad ac adroddi yn ôl i'r cyfarfod nesaf y Cyngor. Diolchwyd y Cadeirydd i Mr Williams am fynychu'r cyfarfod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 8fed o Fai 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5.MATERION YN CODI.

Nid chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc £10,083.00.

B. Taliadau:-

1. Cennin Ltd. Am gostau'r Wefan y Cyngor £142.63.

2. Chostau'r cyfrifiadur ar bennawd llythyr y Cyngor £200.00.

7. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio i godi lloches lloi ar wahân, adeiladau storffeydd peiriannau, newidiadau i sied gart i ffurfio cysgod bugeilied, estyniad i gysgodfa bugeilied (stôr gwair/gwellt) ac estyniad i gysgodfa caeau (cais ol-weithredol) ar dir rhif 8912 wrth Glanynys, Llanynys.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi estyniad i'r adeilad amaethyddol presennol ar gyfer gwartheg ym Mhlas-y-ward, Rhewl.

2. Tynnu simnai, gosod pibell haul a 4 ffenestri to i osod i greu llety byw ychwanegol yng Nghoed Duon Chalet yn Llanrhaeadr.

3. Adeilad byncheri silwair a gwaith cysylltiedig ym Mhen-y-bryn, Llanynys.

8. GOHEBIAETH.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi enwi'r stad tai newydd ar y cyn safle Eglwys yn Rhewl yn "Lon yr Eglwys".

B. Derbyniwyd gwybodaeth fod Stephen Miller o Gae Newydd, Llanynys wedi rhoi Hysbysiad Cyhoeddus yn yr "Free Press" ei fod wedi rhoi cais am drwydded i gadw un lorri yng Nghae Newydd, Llanynys.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Cynghorydd Sir Ddinbych eisoes wedi ymddiheuro am beidio mynychu'r Cyfarfod.

10. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH
LEOL 1972.

Dim yn codi.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Mis Medi yn y Pafiliwn, Rhewl gyda'r dyddiad i'w chadarnhau i weld pryd noson oedd y Pafiliwn ar gael.